Cyngor Bwrdeistref Sirol
Blaenau Gwent
County Borough Council

**Teitl:** **Peiriannydd**

**Lleoliad:** **Gweithio ystwyth**

**Cyfarwyddiaeth:** **Gwasanaethau Adfywio a Chymunedol**

**Rhif y Swydd:** **BGNEW**

**Oriau:** **37 awr yr wythnos**

**Cyflog:** **Gradd 8 (£39,513 - £43,693 y flwyddyn)**

**Contract:** **Parhaol**

## Crynodeb o'r Swydd

Mae'r Gyfarwyddiaeth Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol yn chwilio am beiriannydd i gefnogi'r gwaith o gyflawni swyddogaethau draenio cynaliadwy'r cyngor.

## Hysbyseb Lawn

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gyfrifol am reoli archwiliadau'r Systemau Draenio Cynaliadwy o ddydd i ddydd, darparu cymorth technegol ac arweiniad i ddatblygwyr ac aelodau eraill o'r tîm, gweinyddu ffioedd archwilio, cynnal taenlenni sy'n cofnodi'r taliadau ac unrhyw archwiliadau gan y Corff Cymeradwyo Systemau Draenio Cynaliadwy, a sicrhau bod Systemau Draenio Cynaliadwy yn cael eu hadeiladu, eu mabwysiadu a'u cynnal yn unol â'r gofynion deddfwriaethol.

- Rheoli archwiliadau'r Systemau Draenio Cynaliadwy o ddydd i ddydd a gwaith cysylltiedig yn ymwneud â mabwysiadu, gorfodi ac apeliadau.
- Darparu cyngor technegol mewn perthynas â dŵr wyneb, draenio cynaliadwy a mesurau i liniaru perygl llifogydd mewn perthynas â drafftio adrannau perthnasol o gytundebau cyfreithiol, gorfodi cynllunio, gwaith dilysu, polisi cynllunio, a lle bo angen gan adrannau eraill wrth gyflawni swyddogaethau'r cyngor, gan gwrdd â therfynau amser a thargedau perfformiad perthnasol.
- Mynychu cyfarfodydd pwyllgor, gweithgorau a chyfarfodydd allanol sy'n gysylltiedig â'r swyddogaeth rheoli datblygu yn ôl y gofyn – a all fod y tu allan i oriau gwaith arferol.
- Gweithio'n effeithiol a negodi gyda datblygwyr i sicrhau cynlluniau Systemau Draenio Cynaliadwy o ansawdd uchel ar draws y fwrdeistref.
- O bryd i'w gilydd, bydd yr ymgeisydd llwyddiannus hefyd yn cynorthwyo i gyflawni dyletswyddau statudol Tîm yr Amgylchedd Adeiledig.

**Mae cael defnydd o gerbyd at ddibenion gwaith yn ofynnol.**

**Cynhelir sgrinio cyn cyflogaeth trylwyr yn ystod y broses recriwtio.**

**Rydym yn croesawu ceisiadau yn Gymraeg, llenwch Ffurflen Gymraeg i Wneud Cais am Swydd.**

**I gael gwybodaeth am ailgyflogaeth ac ail-gyflogi cyn-weithwyr, cyfeiriwch at Bolisi Tâl y Cyngor.**

**Dyddiad Cau: 05/12/2024 – 12am, hanner nos**

**Dyddiad y Cyfweliad: 16/12/2024**